Papur y Bwrdd

SWYDDOGOL – SENSITIF
10 Chwefror 2015

Teitl y Papur:	**Cynllun Busnes a Chyllideb ar gyfer 2015-16**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 6.15**
Noddwyd y Papur gan:	**Clive Thomas a Kevin Ingram**
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell a John Hogg

Pwrpas y Papur:	Cymeradwyo Cynllun Busnes a Chyllideb 2015/16 ac argymell y cynllun a'r gyllideb i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Argymhelliad:	Cytuno ar Gynllun Busnes a Chyllideb 2015/16
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd datblygu Cynllun Busnes a Chyllideb sy'n cyd-fynd â'n Pwrpas ac sy'n dangos defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau yn helpu i dargedu ein darpariaeth i sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Bydd datblygu Cynllun Busnes a Chyllideb sy'n cyd-fynd â'n Pwrpas ac sy'n dangos defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau yn helpu i dargedu ein darpariaeth i sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi, yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru ac yn rhoi gwerth am arian i gwsmeriaid yr ydym yn codi tâl arnynt am ein gwasanaethau. **Effaith ar y Gymuned**: Bydd datblygu Cynllun Busnes a Chyllideb sy'n cyd-fynd â'n Pwrpas ac sy'n dangos defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau yn helpu i dargedu ein darpariaeth i sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau yng Nghymru. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd datblygu Cynllun Busnes a Chyllideb sy'n cyd-fynd â'n Pwrpas ac sy'n dangos defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau yn helpu i sicrhau bod gennym y dystiolaeth a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus.

Pwnc

1. Mae angen i'r Bwrdd gymeradwyo ein Cynllun Busnes a'n Cyllideb ar gyfer 2015/16 cyn y gellir ei argymell i'r Gweinidog a'i gyhoeddi wedyn.

Crynodeb

2. Mae Cynllun Busnes 2015-16 yn amlinellu ein gwaith ar gyfer ail flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol 3 blynedd. Mae hefyd yn nodi sut mae'r cyd-destun a'r amgylchedd gweithredu yr ydym yn gweithio ynddo wedi newid ers cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol ym mis Ebrill 2014. Mae'r Cynllun yn cynnwys y gofynion o'n Llythyr Cylch Gwaith ac yn nodi cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rydym wedi datblygu'r Cynllun Busnes gan ddefnyddio trafodaethau gyda'r Bwrdd ar flaenoriaethau, mewnbwn o'n Byrddau ar y thema 'Er lles...', ystyriaeth i ddulliau gweithio newydd ac arloesol a'r angen i gyflawni'r Achos Busnes.

Cefndir

3. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol fel sefydliad yn ein dwy flynedd gyntaf a nod ein Cynllun Busnes ar gyfer ein trydedd flwyddyn yw cadarnhau'r 'sylfaen' a sefydlwyd gennym a chamau gweithredu eraill a gynlluniwyd i helpu i 'ddatgloi'r potensial' i'n sefydliad. Yn ystod 2014/15, rydym wedi cyflawni nifer o brosiectau pontio sylweddol, yn cynnwys cyfuno ein swyddogaethau TGCh mewn un system er enghraifft, yn ogystal ag ailstrwythuro ein gweithlu, yn enwedig ein timau gweithredol i ddarparu gwasanaethau gwell, mwy cydgysylltiedig mewn lleoliadau penodol i'n cwsmeriaid. I'n helpu i lywio cam nesaf ein datblygiad, rydym wedi datblygu 'map ffordd' i'n sefydliad i bennu cyfeiriad a cherrig milltir allweddol, y cyfan wedi'u cynllunio i'n helpu ni i gyflawni'r uchelgais o reoli adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru, fel y nodir yn ein Cynllun Corfforaethol.

4. I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2015/16 a thu hwnt, byddwn yn gwneud gwaith i drawsnewid y sefydliad i sicrhau mai rheoli adnoddau naturiol integredig yw ein prif ffocws a sylfaen ein holl waith, a'n bod yn sicrhau'r manteision a nodwyd yn yr achos busnes. Byddwn yn gwneud hyn yn bennaf drwy 5 Rhaglen Drawsnewid, pob un yn cynnwys nifer o brosiectau cysylltiedig. Y Rhaglenni yw:-

   - Sefydlu Rheolaeth Adnoddau Naturiol
   - Canolbwyntio ar Gwsmeriaid
   - Datblygu ein Pobl a'n Timau
   - Gwella Effeithlonrwydd a Darpariaeth Gwasanaeth
   - Datblygu Menter a Busnes

   Bydd y rhaglenni hyn yn dwyn ynghyd yr holl gamau datblygu a gwella sydd eisoes wedi'u cynnwys yn ein cynlluniau cyflawni ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn llawn ac yn gyson â'n pwrpas a'n gweledigaeth. Bydd y Rhaglenni Trawsnewid felly yn ein helpu i gyflawni ein busnes arferol mewn ffyrdd newydd, mwy effeithiol, naill ai drwy ddefnyddio dulliau gwahanol neu mewn rhai achosion, addasu neu roi'r gorau i rai mathau o waith yn gyfan gwbl.

5. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 3 Rhagfyr cyflwynwyd Cynllun Busnes drafft cynnar a thrafodwyd ein Llythyr Cylch Gwaith gyda Matthew Quinn o Lywodraeth

Cymru. Amlinellwyd sut roeddem yn bwriadu cyflawni cyllideb gytbwys, drwy leihau gwariant mewn meysydd penodol a chynyddu ein hincwm. Gan ddefnyddio'r adborth a dderbyniwyd, ynghyd â gwaith pellach a wnaed gan y Tîm Gweithredol, rydym wedi creu fersiwn derfynol o'r Cynllun Busnes ac wedi cydbwyso'r gyllideb, ac wedi ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar y llythyr Cylch Gwaith.

6. Wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes a'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf rydym wedi cynnwys adborth cychwynnol o'r adolygiadau a gomisiynwyd o ganlyniad i sesiwn y Bwrdd ym mis Tachwedd. Bydd gwaith pellach ar yr adolygiadau hyn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen drawsnewid Gwella Effeithlonrwydd a Darpariaeth Gwasanaeth yn ystod 2015/16.

7. Yn ogystal â'r dulliau hyn byddwn yn lansio ymgyrch effeithlonrwydd ledled Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r nod o 'Reoli gyda Llai', gan edrych ar nodi arbedion ar draws ystod o gostau nad ydynt yn ymwneud â staff e.e. cyfarfodydd, teithio, argraffu ac ati.

8. Gyda'i gilydd, bydd y dulliau hyn yn ein rhoi ar blatfform ariannol cadarnach ac yn cyd-fynd yn gliriach â'r hyn sydd angen i ni ei gyflawni a'r ffordd rydym am weithredu. Bydd y rhan fwyaf o fanteision yr holl ddulliau hyn yn dechrau cael eu gwireddu o 2016/17 ymlaen.

9. Mae Atodiad A yn cynnwys y Cynllun Busnes a'r Gyllideb – 2015/16

Cynigion a Chamau Nesaf

10. Y Bwrdd i gymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r Gyllideb - 2015/16

11. Y Bwrdd i argymell bod y Cynllun Busnes a'r Gyllideb ar gyfer 2015/16 yn cael ei anfon at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ei gymeradwyo.

12. Ar ôl cytuno ar y Cynllun Busnes, byddwn yn myfyrio ar ein targedau cyflawnadwy allweddol yn ein Fframwaith Perfformiad a'n Dangosfwrdd Corfforaethol ar gyfer 2015/16.

13. Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun a'r Gyllideb ar ein gwefan erbyn 31 Mawrth 2015, yn amodol ar gadarnhad y Gweinidog.

Risgiau

14. Gan fod angen cymeradwyaeth ffurfiol y Gweinidog i'r Cynllun Busnes, rydym wedi cytuno ar amserlen gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cydweithwyr polisi yn cael digon o amser i weld y cynllun ac i gyfrannu at y Cynllun drafft.

Goblygiadau ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â chyflawni'r ymarfer hwn ac eithrio amser staff yn datblygu'r Cynllun Busnes, Cynllun y Gweithlu a'r Gyllideb.

Cyfathrebu

16. Byddwn yn cyfathrebu am ein Cynllun Busnes drwy'n gwefan yn bennaf.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA)

17. Rydym wedi datblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio ein Cynllun Busnes.

Atodiadau
Atodiad A –Cynllun Busnes a Chyllideb – 2015/16
Atodiad B – Llythyr Cylch Gwaith
Atodiad C- Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb